tafod elái

HYDREF 1987 Pris 20c RHIF 21


# RHYDFELEN YN DATHLU

Gwelwyd llythyr trist iawn mewn un papur bro yn ddiweddar yn cwyno na chlywir sôn am Ysgol Uwchradd y fro - a honno mewn ardal Gymreig. Nid dyna'r stori yn Nhaf-Elai. Bu enwau ein hysgolion Uwchradd i'w clywed yn aml, aml dros y blynyddoedd ac yn enwedig enw Ysgol Rhydfelen. Fe agorwyd Ysgol Gyfun Rhydfelen bum mlynedd ar hugain yn ôl ac y mae wedi mynd o nerth i nerth. Mae y llwyddiannau, gweithgareddau a'r cynhyrchiadau gan yr ysgol yn ddirifedi.

Eleni bydd yr ysgol yn dathlu y pum mlynedd ar hugain mewn sawl ffordd. Cychwynwyd y dathlu ar ddechrau'r tymor. Trefnodd y Gymdeithas rieni bererindod i Gwrt y Cadno. cychwynnodd Seiclwyr, rhedwyr, cerddwyr a Merlotwyr am Gwrt y Cadno ar Ddydd Gwener. Rhanwyd pawb i'w chwe llys a phob llys yn teithio 10 milltir Ddydd Gwener a Ddydd Sadwrn. Cychwynnodd y merlotwyr o Gae Iago, Farmers, ger Pum Saint. Casglwyd arian a noddwyd y plant. Wedi cyrraedd Cwrt y Cadno cafwyd Cymanfa Ganu gyda chyn athro o Rhydfelen, Dr Hywel Griffiths yn arwain. Bwriadwyd cael chwaraeon yn y prynhawn ond daeth y glaw. Cludwyd pob merlotwr, cerddwr, seiclwr a rhedwr yn ôl i Rhydfelen mewn bwsiau a cheir. Ar Ebrill 15fed bydd yn ddeng mlynedd ers agor Cwrt y Cadno.

Ar Hydref 15 - 17 bydd Cyngerdd mawr fel rhan o'r dathlu. 'Dyddiau Fu' fydd enw'r Cyngerdd a bydd caset ar werth. Cawn flasu rannau o gyngherddau, operau roc a dramau cerdd a berfformiwyd yn y Dyddiau Fu. Bydd plant yr ysgolion lleol yn cael cyfle i fynd yno yn y prynhawniau.

Edrychwn ymlaen yn awchus a hiraethus am y nosweithiau o ganu a dathlu a fydd drwy'r flwyddyn.




Tra bod Ysgol Rhydfelen yn dathlu pum mlynedd ar hugain rydym ni fel papur yn dathlu ein hail benblwydd gyda'r rhifyn yma. Cofiwch mai eich papur chi yw'r 'Tafod' ac os oes gennych sylw ar gynnwys y papur neu unrhyw newyddion neu hanesyn fe fyddwn yn falch i glywed gennych.

## TAGFEYDD TONYSGUBORIAU




Yn ôl y disgwyl bu mwy o dagfeydd moduron o gwmpas Newpark yn dilyn agor y farchnad agored newydd yno mis diwethaf.

Mae'r tagfeydd sy'n croni ar amserau brîg ac ar Ddydd Sadwrn yn achosi cryn bryder i drigolion yr ardal ac ar adegau mae'n amhosib gyrru peiriant tân neu Ambiwlans i gynorthwyo trigolion Newpark.

Er mai lês byr sydd ar safle'r farchnad ar hyn o bryd fe fydd Cyngor Taf-Elai yn ystyried gwerthu'r safle os gwireddir adroddiad gan Glerc y Cyngor sy'n argymell gwario £3miliwn ar adeiladu swyddfeydd newydd ym Mhontypridd wedi eu cysylltu a'r rhai presenol yn Heol Gelliwastad.

Yr unig obaith i leddfu problemau Tonysguboriau yw'r ffordd osgoi. Yn ôl y Cyngor Sir gobeithir dechrau ar y gwaith y flwyddyn nesaf.

## CYNNWYS

Dyddiadur Dosbarth Canol.... 5
Llyfrau Newydd............ 7
Cerdyn Post............... 8
Ffau'r Plant..............10
Bywyd.....................11
Portread..................12
Buddsoddi a Datblygu......16

A SBEC BRO AM DDIM

# YN DEILWNG O'R GORON

Roedd 32 o gystadleuwyr wedi ceisio am y goron eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog. A'r dasg oedd creu Casgliad o Gerddi ar y thema 'Breuddwydion'. Er mai 'Cloch Mabon', sef John Gruffydd Jones o Abergele, oedd yn fuddugol, yn ôl y beirniaid roedd saith yn deilwng o'r goron.

Ymysg y saith hyn, mae'n debyg, roedd un o ardal Taf-Elai, ac er nad yw gwaith y bardd wedi ei gyhoeddi eto mae'n byr debyg y clywn fwy yn y dyfodol am y bardd hwn. Ffug enw'r bardd yng nghystadleuaeth y goron oedd 'Ar y Cyrion' ac mae canmoliaeth uchel i'r gwaith gan y tri beirniad.

Dyma sylwadau Bobi Jones: "Sensitifrwydd gweld, delweddu bywiog a mentrus, rhai ymadroddion slic a fwlgar, ond symlder deniadol at ei gilydd. Hwn yw'r mwyaf cyson o safbwynt crisialu teimlad byw. Cerdd hyfryd oedd 'Y nos a fu'".

Yn ôl E.G. Millward "Ffugenw anaddas, y mae 'Ar y Cyrion' yng nghanol y goreuon yn y gystadleuaeth. Nid oes neb arall eleni'n meddu ar sensitifrwydd dwys a dengar y bardd hwn. Myfyrdod ar gariad a geir yma - cariad cyfoethog o amlweddog, yn llawen ac yn betrus, yn agored ac yn ymholgar - ac ar y dadrith a brofir wrth ddysgu 'mai poen yw pleser cariad'."

John Roderick Rees oedd y trydydd beirniad: "Cariad rhwystredig yw craidd y cerddi. Mynegiant eglur ac awenyddol. Ei rythmau effeithiol yn ein dallu weithiau i eiriogrwydd y cynnwys."

Llongyfarchiadau i 'Ar y Cyrion' am greu casgliad mor ganmoladwy. Safed y bardd i dderbyn clod yr ardal.

## CANU GYDA'R CWMNI OPERA

Unarddeg oed yw Charlotte Merry a newydd ddechrau yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Ond cafodd Charlotte ganiatad i golli ysgol i fynd i ganu gyda'r Cwmni Opera. Mae hi'n brysur yn canu am un diwrnod yr wythnos o Fedi 26 i Ragfyr 9fed. Mae Charlotte yn hen law ar berfformio. Hi oedd yn chwarae'r brif ran yng nghynyrchiad Cwmni Opera Amatur Pontypridd, a bu'n perfformio yng Nghaerdydd yn y "Miracle Plays".

O 11 Lanelay Crescent, Maesycoed, Pontypridd y daw Charlotte ac y mae'n gyn-ddisgybl o Ysgolion Pont Siôn Norton a Garth Olwg.

# PWY YW PWY?


GOLYGYDD
Penri Williams Pentyrch 890040

NEWYDDION LLEOL
Glenys Roberts Llantrisant 228196

ERTHYGLAU
Anna Jones Pontypridd 404697
Sian Jones N'tn Llan 204565

CHWARAEON
Geraint Hughes Llantrisant 224743

LLUNIAU
David Penny Jones
Pontypridd 408623

DOSBARTHU
Rhys Llewelyn N'tn Llan 207077

TRYSORYDD
Ann Dilys Jones Pentyrch 892239

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams Pentyrch 890979

HYSBYSEBION
David Knight Pentyrch 891353

YSGRIFENNYDD
Gill Rees Pentyrch 890571

PWYLLGOR
Emlyn Davies Pentyrch 891344
Llinos Swain Llantrisant 228143
Mererid Morris Llantrisant 223525
D.J. Davies Tonyrefail 671327
Rhodri Jones Pentyrch 890039



Cyhoeddir Tafod Elai gan y Bwrdd Golygyddol gyda chefnogaeth ariannol Cymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig. Argraffwyd gan Gwmni Three Arch Press


## RHAGLEN HYWEL

Bydd Hywel Gwynfryn nol yn fyw ar y sgrîn ar S4C ar nos Sul gan gychwyn ar Hydref 4. Ymysg ei westeion, fe fydd cymysgedd o sêr cyfarwydd a rhai llai cyfarwydd, gyda chyfle i chi eu holi yn fyw ar yr awyr.

Oes gynnoch chi hobi neu job anarferol? Ydych chi wedi cyflawni camp hynod neu ryfeddol? Ydych chi'n perthyn i griw sy'n trefnu digwyddiadau anghyffredin? Os felly, cysylltwch â Hywel nawr!

Yn ogystal, mae angen cynulleidfaoedd amrywiol, brwdfrydig a bywiog. Os carech chi ddo i'r stiwdio, danfonwch air at:

Rhaglen Hywel Gwynfryn
Ystafell 132 Gabalfa,
BBC Cymru,
Llandaf
CAERDYDD
CF5 2YQ.

# —— Digwyddiadur ——

8 Hydref, Nos Iau. Merched y Wawr, Cangen y Garth. "Gwneud Doliau" gydag Eirlys Davies, yn Neuadd y Pentref, Pentyrch am 8.00 o'r gloch.

10 Hydref - Clwb y Bont - Ystafell Gefn - Gwrth Apartheid - The Chartists.

13 Hydref - Sioe Ffasiynau - Ysgol Feithrin Llantrisant a'r Cylch - Neuadd Gymuned Tonysguboriau - 7.00

15 Hydref - Clwb y Dwrlyn - Brethyn Oddicartref yn Ninas Powys.

16 Hydref - Clwb y Bont - Writers from the Valleys - Noson yng ngofal yr Academi Gymreig - 7.30.

17 Hydref - Twmpath a Chawl - Cadlan - Cymdeithas Rieni Y.G.G. Llantrisant - Clwb y Gweithwyr, Llantrisant - 8.00.

21 Hydref - Tŷ Illtud - Merched y Wawr, Pentre'r Eglwys - Noson Gymdeithasol yng ngofal Meima Morse - 7.30

22 Hydref - 1 Tachwedd. Arddangosfa o luniau Gareth Thomas - Hill Top Studio, Llantrisant.

23 Hydref - Clwb y Bont - John Daniel (Grŵp Jazz)

24 Hydref - Clwb y Bont - Dafydd Iwan a Huw Ceredig

29-31 Hydref - Theatr Sherman- Cwmni Theatr Gwynedd - 'Lle Mynno'r Gwynt' (John Gwilym Jones) - 7.30

30 Hydref - Clwb y Bont - Cantorion Cerdyn.

31 Hydref - Clwb y Bont - Parti Calan Gaea' - Gwisg ffansi.

1 Tachwedd - Capel Sardis, Pontypridd - Gymanfa Ganu y 'Tafod'.

# COFIWCH RHOI GWYBOD

Os oes rhywbeth diddorol yn digwydd yn eich cymdogaeth cofiwch rhoi gwybod i'ch Gohebydd Lleol neu:

Y Golygydd
Hendre
4 Pantbach
Pentyrch.
CF4 8TG.

## PERLAU'R PLANT

Mae 'na rywbeth go arbennig wedi digwydd yn hanes y *Tafod*. Ar ei rifyn pen-blwydd hefyd. A' i ddim cyn belled â dweud ei fod o'n wyrthiol - ond mae o'n bur ryfeddol. Dydy'r Golygydd ddim yn credu 'i fod o wedi digwydd. Mae o'n credu 'mod i'n gwneud y cyfan i fyny o 'mhen a 'mhastwn fy hun. Ond mi alla' i'ch sicrhau chi nad ydy hynny ddim yn wir. Beth sydd mor rhyfeddol o ffantastig meddach chi? MI GES I YMATEB I'R GOLOFN! Wir yr. Ar ddu a gwyn hefyd! Dim ond un llythyr bach cofiwch, ond mae o'n ddechra. Mae o'n profi bod o leia un person yn darllen yr hen bapur.

Mae'n amlwg bod 'na gymeriad bach go wreiddiol o'r enw Daniel yn byw tua'r Efail Isaf 'na. Roedd o wedi mynd gyda'i fam a'i dad i weld ffrindiau yn eu byngalo newydd tua Chaerfyrddin. Wedi cyrraedd, dyma chwilio o gwmpas am rywbeth i chwarae efo fo, ac, o weld yr ystafell braidd yn foel, dyma ofyn, 'Lle mae tegana Aled?' 'Yn 'i lofft o,' oedd yr ateb. Allan â'r bychan ar frys o'r 'stafell fyw, ond wedi iddo gyrraedd y cyntedd, daeth gwaedd ddryslyd - 'Ond lle mae'r grisia' 'ta?'



Ond dyma'r clasur. Mae'n dechrau mynd yn rhan o chwedloniaeth y Tabernacl a dweud y gwir. Yn fuan wedi i Carol, John a'r teulu symud i'r Efail Isaf dyma dderbyn ymweliad un prynhawn gan Mr Eirian Rees, y gweinidog. Gwrthododd 'banad o de gan bwysleisio mai dim ond picio i mewn oedd o. Wedi sgwrs a thipyn o chwarae efo r plant, i ffwrdd â fo. Wrth wylio'r car yn mynd, dyma'r bychan yn holi:
'Pam doedd Iesu Grist ddim isio 'panad mam?'

Does dim eisiau ychwanegu dim at honna, 'nag oes? Ond alla i ddim peidio â dyfalu chwaith beth oedd ymateb Daniel o glywed bod 'Iesu Grist' bellach yn daid! Cofiwch sgwennu os oes ganddoch chitha' berlau:

Perlau'r Plant
Maes yr Haul
Cross Inn
Llantrisant.

Diolch i Gerwyn Williams am gynllun newydd y clawr ac am ei gartŵn misol.

Byddai'r Tafod yn hynod o falch o gael cyfranwyr newydd. Does dim rhaid ichi fod yn llenor o fri i allu cyfrannu rhywbeth difyr. Newyddion, erthygl, stori, pos, cerdd, llun, jôc, llythyr - mae croeso iddyn nhw i gyd. Anfonwch at y Golygydd neu at unrhyw un o aelodau'r Bwrdd Golygyddol.

## CLWB Y DWRLYN

Daeth llu o aelodau hen a newydd ynghyd ar Nos Iau, Medi 17eg, i fwynhau Noson Agoriadol ddifyr iawn yng nghwmni Hywel Gwynfryn, Caryl Parry Jones, Myfyr Isaac, gyda Graham Land ar yr allweddellau. Cawsom wledd o farddoniaeth a cherddoriaeth ac wrth gwrs cyfle i gwrdd â rhai o ffrindiau Caryl, Lavinia a Glenys. Yn ôl bob tebyg roedd tŷ cyntaf Rhisiart a Glenys ym Maesysarn, Pentyrch, felly roedd Glenys yn reit gartrefol yn ein plith! Diolch yn fawr iawn iddynt am fod mor barod i roi o'u hamser prin i'n diddanu.

Ar Hydref 15ed, byddwn yn ymweld â Chymdeithas Gymraeg Dinas Powys ar gyfer "Brethyn Oddi-cartref", ac ar Dachwedd 26ain byddwn yn croesawu pedwar o brifeirdd ac englynwyr gorau'r genedl i ymryson dan ofal y meuryn, Y Prifardd Dic Jones.

Tybed a oes beirdd yn llechu ymysg darllenwyr y Tafod? Beth am fentro ar un o'r cystadleuthau isod, Dic Jones fydd yn beirniadu:

1. Gorffenwch y limrig:

R'ym ni yma Nos Iau'r wythnos yma
Oherwydd fod yna Ŵyl Ddrama....

2. Englyn ar un o'r pynciau canlynol:

Tafod Elai, Dwrlyn, Diolch,
Yr Adfert.

Cynigir gwobr o Docyn Llyfrau £5.
Cynhyrchiadau erbyn
Tachwedd 1af i
Mrs Carol Williams
Hendre, 4 Pantbach,
Pentyrch. CF4 8TG.

## ARLOESI YN Y POLI

Cychwynwyd ar dair Cynllun Ymchwil newydd yn Adran Ieithoedd Politechnig Cymru ym mis Medi i baratoi defnyddiau newydd yn Gymraeg o dan oruchwyliaeth Cennard Davies, Allan James a Basil Davies.

Mae Mari Lisa Jones o Fachynlleth yn paratoi defnyddiau i bobl sy'n cael anhawster ysgrifennu yn Gymraeg ac sy eisiau ysgrifennu Cymraeg safonol. Paratoir pecynnau ar sut i ysgrifennu llythyrau, cardiau post, cofnodion cyfarfodydd a straeon i'r papur bro.

Paratoi ar gyfer rhieni di-Gymraeg sydd a'i plant mewn Ysgolion Cymraeg mae Rhiannon Humphries o Gaerfyrddin. Fe fydd y pecynnau yn cyflwyno cefndir yr ysgolion Cymraeg, yn dod â iaith yr ysgol i'r cartref ac yn dangos i'r rhieni sut i roi help ymarferol i'w plant.

Bwriad cwrs arall sy'n cael ei baratoi gan Mair Morris o Aberdar, yw galluogi athrawon Cymraeg eu hiaith i drosglwyddo o ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r gwaith arloesol yma yn dilyn llwyddiant cwrs gohebol i ddysgu'r Gymraeg sydd nawr wedi cael ei farachnata dros y byd i gyd.

## AIL WYL DDRAMA'R TAFOD

**NOS FERCHER, IAU A GWENER**

## 18-20 TACHWEDD 1987

**NEUADD DOWLAIS**

## CYMANFA GANU BLYNYDDOL

**TAFOD ELAI**

## CAPEL SARDIS

**PONTYPRIDD**

## 8.00 P.M. NOS SUL, 1AF TACHWEDD

## ARWEINYDD
## WIL MORRIS JONES

**ORGANYDD**

**IDWAL ADAMS**

# TONTEG

Gohebydd Lleol: Siân Jones

ASTUDIO MEDDYGAETH

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i holl blant yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau Lefel A ac O. Dymunwn yn dda i'r rheiny fydd yn gadael cartref yn ystod Medi a Hydref. Braf oedd clywed i Gary Davies, un o brif swyddogion Ysgol Gyfun Llanhari, basio'r arholiadau lefel A mewn Bywydeg, ffiseg a Chemeg; bydd yn mynd i astudio Meddygaeth yng Ngoleg y Brifysgol Llundain.

MERCHED Y WAWR

Cynhelir cyfarfod nesaf y mudiad nos Fercher, Hydref 21ain am 7.30 pm yn Nhŷ Illtud pan geir noson gymdeithasol dan ofal Meima Morse. Gofynnir i bawb ddod â lluniau o'u plentyndod i'r cyfarfod er mwyn cynnal cwis anffurfiol. Yn ystod y cyfarfod hefyd bydd cyfle i aelodau hen a newydd ymaelodi a chael sgwrs dros baned a thamaid i'w fwyta. Estynnir croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Rosanna Percy o'r Coppice, Tonteg, a'i theulu ar farwolaeth ei thad yn ystod yr Haf. Mae Rosanna yn un o'r athrawesau yng Nghylch Meithrin Salem, Tonteg.

BETHAN AR 'DINAS'

Cafodd Bethan Lowri Williams, Manorbier Close, Tonteg, gyfle unigryw yn ddiweddar i ymddangos ar y rhaglen 'Dinas' a hithau ond yn dair oed! Gwelwyd Bethan yn cael y profiad gwahanol o actio rhan plentyn i ddau bync!! Mae Bethan yn un o blant Cylch Meithrin Salem.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad i Dr Errol Jones a'r teulu, Church Road, Tonteg, ar farwolaeth sydyn ei fam ddiwedd Awst.

CROESO I'R ARDAL

Braf yw cael croesawu Mr a Mrs Roy Pickard o Fangor i Donteg. Mae Mr a Mrs Pickard wedi symud i fyw i Ffordd yr Ywen, a'r atyniad i'r ardal yma wrth gwrs yw eu mab, Y Parch Alan Pickard a'r teulu. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH SALEM

Cynhelir y Cyfarfodydd Diolchgarwch eleni ddydd Sul, Hydref 11eg. Cynhelir oedfa Gymraeg am 10.30 yn y bore ac oedfa Saesneg am 6 o'r gloch yr hwyr.



# YR EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

CROESO I'R PENTRE'

Croeso i Martin a Liz West a'u mab bychan, Rhydian, sydd wedi ymgartrefu ym Nant y Felin yn ystod yr haf. Radiograffydd yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg ac Ysbyty'r Mynydd Bychan yw Martin ac mae Liz yn athrawes gwyddor tŷ yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Croeso hefyd i Peter a Mary Thomas a'r teulu sydd newydd symud o Lanilltud Faerdre i Heol y Ffynnon. Mae'r ddau'n athrawon yn y Rhondda.

LLONGYFARCHION

Llongyfarchiadau i Eleri Edmunds, Geraint Thomas a Huw Williams ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Lefel O.

Llongyfarchwn hefyd Rhian Watkins, Siân Henry, Christopher Griffiths a Gareth Williams ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Lefel A. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau eu gyrfaoedd yn y Colegau.

Mae amryw o fyfyrwyr wedi bod yn mwynhau egwyl gyda'u teuluoedd dros wyliau'r Haf. Dymunwn yn dda i Karen Griffiths, Menna Rees, Louise Henry a Gwion Rees sy'n wynebu blwyddyn brysur eleni, sef blwyddyn arholiad gradd. Mae gan Menna a Gwion gyfrifoldebau ychwanegol, Menna yn Is-Lywydd Undeb Athletau y Myfyrwyr yn Aberystwyth a Gwion sydd yng Ngholeg y Brif-Ysgol Abertawe fydd Trefnydd yr Eisteddfod Ryngolegol y flwydddyn nesaf.

Dymunwn yn dda i David John hefyd sy'n astudio am radd uwch yng Nghaergaint.

FFRAINC YN DENU IEUENCTID O'R PENTRE

Mae Gareth Williams, Heol Tir Coch, sydd newydd fod yn llwyddiannus yn ei arholiadau Lefel A wedi penderfynu ehangu ei orwelion a threulio cyfnod yn gweithio yn Ffrainc i loywi'r iaith cyn cychwyn ar ei yrfa yn y brifysgol.

Gadawodd David Roberts, yntau hefyd o Heol Tir Coch, i fynd i Ffrainc i weithio gyda Chwmni Gwyliau yno.

"MYFI SY'N MAGU'R BABI"

Mae'n ddigon posib taw "Myfi Sy'n Magu'r Babi" fydd y Corws a glywir yn y Tabernc l ar Fore Sul yn y dyfodol agos. Mae Tad-cu wedi dotio cymaint ar ei wyres newydd-anedig nes iddo benderfynu sefydlu grŵp gwarchod yn Stafell y Diaconiaid yn ystod yr Oedfa Foreol.

Llongyfarchiadau i Tadcu a Mamgu, sef y Parchedig Eirian ac Anne Rees ar enedigaeth Ffion, eu hwyres, merch fach Caroline a Geraint.

PRIODAS

Dymunwn yn dda i Andrea Norris, Heol y Ffynnon a Mathew Bridle o Plymouth ar eu priodas yn Eglwys Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys ar Ddydd Sadwrn, Medi 5ed. Judith, chwaer Andrea oedd y forwyn briodas. Bu Andrea a Mathew'n treulio eu mis mêl yn heulwen Ynys Melita. Bydd y ddau'n ymgartrefu yn Northampton lle mae Mathew'n beiriannydd gyda Chwmni Electroneg ac Andrea'n gweithio yn Adran Gofal Plant gyda'r Gwasanaeth Cymdeithasol.

# FFYNNON TÂF A GWAELOD

Gohebydd Lleol: E. June Huws.

MERCH FACH DDEWR

Mae'n bleser o'r mwyaf cael Branwen Rose o Fwthyn Lorien, Georgetown, yn ôl yn ein plith. Cafodd Branwen lawdriniaeth yn ystod yr haf a bennodd ofid garw i'w theulu a'i ffrindiau i gyd.

Dim ond pedair yw Branwen ac yr oedd ei dewrder hi a'r teulu, o dan y fath amgylchiadau brawychus, yn destun edmygedd ac yn esiampl i ni gyd. Croeso cynnes yn ôl Bran!

BABI NEWYDD

Llongyfarchiadau i Catherine a Stephen Phillips ar enedigaeth eu mab Gareth James ar Awst 24ain. Mae'r newydd anedig yn destun llawenydd i'w fam a'i dad, Gordon ac Ann Beech, Ffynnon Taf, ac i Bopa Nansi Millward, Gwaelod y Garth.

CAPEL BETHLEHEM

Mae'r tymor newydd wedi dechrau o ddifri yn y Capel, gyda naw aelod newydd yn cael eu croesawu. Ar ddydd Sul, Medi 20ed bedyddiwyd pedwar babi yn oedfa'r bore.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Dr Elin Jones, Georgetown, ar farwolaeth ei mam a fu'n wael ers cryn amser.




Yn ystod y degawd diwethaf dylifodd dwsinau o Yuppies Caerdydd i fyny'r afon Taf i Odro'r Garth. Beth yn union yw'r atyniad mawr? Mewn cyfres o ymchwiliadau pell-gyrhaeddol bu 'Tafod Elai' yn holi pam y mae cymaint o deuluoedd dosbarth canol yn mynnu bod yn Garth-ion? Dianc wnaeth y cyntaf a holwyd...

'Nid fi yw'r seiciatrydd!'

Ni fum erioed at seiciatrydd: fy nhrafferth i yw fod y seiciatrydd yn mynnu fy mlino i. Cefais yr anffawd nid bychan o rannu'r un enw â seiciatrydd enwoca Gwalia. A beth sydd mewn enw? Trafferth hogia bach!

Yn ystod fy nhair blynedd ar ddeg - anlwcus i rai - o breswylio yn y brif-ddinas bûm yn fy ngwaith yn ailgyfeirio llythyrau'r seiciatrydd. Derbyniais bob math o sothach o eiddo'r dyn a derbyniodd y dyn rai o'm llythyrau innau a barnu yn ôl y graffiti ar wynebau'r amlenni druan ('Never heard of him'. 'Try Plaid Cymru'. 'Try Hensol Hospital'.) Derbyniais ei alwadau ffôn - rhai gwleidyddol, rhai gyfryngol, rhai meddygol. 'Nid fi yw'r seiciatrydd!' arthiais yn fy Saesneg coethaf wrth yr hen wraig ar y ffôn. 'O dwi'n gweld!' medda hi. 'Dim ots. Falle gellwch chi'n helpu fi'.

Mae'n debyg bod y Meddyg Da ambell dro wedi dioddef ar gam oherwydd f'ysgrifbin i. Ond er bod hynny'n rhywfaint o gysur nid oedd ond un ateb i'r broblem hunaniaeth yn y pendraw sef i um ohonom adael Caerdydd. Dihengais un dydd yn fore tua'r anghyfanleoedd hynny i'r gogledd o Gabalfa lle na throedia unrhyw Gaerdiffian gwerth ei halen a gosod fy mhabell ar odre Rhiw'r Ceiliog yng Ngwaelod-y-Garth.

Dyma'r erthygl gyntaf mewn cyfres newydd gan DAFYDD HUWS, Gwaelod-y-Garth. Efallai bod cliw ynddi sy'n egluro pam mai o dan enw arall y bu'n sgwennu ei golofn deledu i'r Faner ers stalwm.

---

Cedwais fy rhif ffôn yn gyfrinach gan ddatgelu fy nghyfeiriad ddim ond i'r rhai hynny yr oedd arnynt brês i mi. Siawns nad oeddwn yn ddiogel yn y llecyn anghysbell hwn rhag erledigaeth y Doctor Dinesig.

Ond och! a gwae. Prin yr oedd mwg ecsawst lori 'Pickfords' wedi gwasgaru nag y tybiais imi weled taldra main Herr Huws un bore Sul yn anelu'i gamau Gestapo am drws nesa. Pa beth a wneuthum iddo fel ei fod yn mynnu aflonyddu arnaf yn y modd hwn? Anwybyddais y drychiolaeth a deiagnosais baranoia. Ond y gwir a saif. Tydi'r cyfaill yn byw tu hwnt i'r afon mewn llecyn y gallaf ysbio arno o'r ffenast llofft. A'r aflwydd yw, os ydw i'n ei weld o mae o'n fy ngweld inna! Tydi o'n aelod yng Ngwaelod-y-Garth a thydi o'n picio mewn drws nesa i ymarfer ei wenhwyseg bob bore Sul rhydd er cyn co: er cyn y 'co' yma beth bynnag, taswn i ond yn gwbod!

Ni allaf ddianc rhag hwn: bydd yn rhaid dygymod â'r ffaith. Mae'r BBC eisioes wedi ffonio i ofyn i mi gyflwyno rhaglen wyddonol ar 'Radio Cymru'. Afraid bod y postman eisioes wedi dechrau ar ei driciau. Buan y bydd holl bymff seiciatryddol y greadigaeth yn sacheidiau wrth fy nôr. (Diolch i'r drefn nad yw'r capel yn cyhoeddi cyfraniadau unigol neu mae'n beryg mai Efe fuasai'n cael y clod am fy haelioni mawr i.) Atolwg chwychwi y mae arnoch newyn a syched am seiciatrydd! Cyfeiriwch eich llythyrau bendith Tad i chi i'r 'FFWRNES BLWM, CAERFFILI'. MAe peryg bywyd i unrhyw lythyr i 'FFWRNES BLWM, FFYNNON TAAF' landio yma. Canys y mae llythyr-gludwyr Morgannwg achlân fel bomiau niwtron yn anelu am y person yn hytrach na'r adeilad. Pa ddiben i'r tlawd hun ymfudo yr holl ffordd o Cathays i Waelod-y-Garth os mai mater o neidio o'r badell ffrio i'r FFWRNES yw hi?

# AIL WŶL AR Y GWEILL

Nos Lun 14eg Medi yn festri Capel Tabernacl, yr Efail Isaf, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drefnu Gŵyl Ddrama 1987. Penderfynwyd mewn cyfarfod ym mis Mehefini geisio cadw at yr un trefniadau, hyd y bo modd, er mwyn ail-greu awyrgylch neuadd bentref gartrefol yr Ŵyl agoriadol. Drwy gadw at yr un wythnos ym mis Tachwedd y gobaith yw sefydlu'r arfer o Ŵyl Ddrama flynyddol yn y cylch fel y bydd pob Cymdeithas ac unigolyn yn ei nodi yn eu dyddiaduron ar ddechrau tymor.

Yn ei adroddiad, dywedodd Colin Williams fod Neuadd Dowlais wedi ei logi a bod y beirniad, y Br. Huw Ceredig, wedi ei sicrhâu. Mynegodd hefyd fod tair Ysgol Uwchradd yn awyddus i gystadlu ac iddo dderbyn ymddiheuriadau oddi wrth nifer o athrawon yn datgan eu siom na allent fod yn bresennol. Yn ôl cynrychiolwyr y cwmniau oedolion oedd yna, y mae 4 am fwrw ati eto eleni. Y mae hyn yn gwarantu llwyddiant i'r Ŵyl ond teimlai nifer yn y cyfarfod y gellid ennyn diddordeb un neu ddau o ardaloedd eraill i gystadlu. Beth amdani 'te, chi thesbiaid Llantrisant, Tonteg, Ynys y Bwl ----- ? Cytunwyd ar ddyddiad cau ar gyfer cystadlu, sef 14eg Hydref, felly ewch ati ar eich union ar ôl darllen y tipyn adroddiad hwn i wneud y galwadau ffôn angenrheidiol.

Diolchwyd i Roy Davies am ei gyfraniad technegol y llynedd ac am ei barodrwydd i helpu pob cwmni fel ei gilydd eleni eto. Gwerthfawrogwyd yn ogystal gyfraniad Jill Rees, ysgrifenyddes newydd-apwyntiedig y 'Tafod' a fu'n gohebu a chadw'r cofnodion. Yn bennaf oll, diolchwyd i gynrychiolwyr y cwmniau am eu presenoldeb yn y cyfarfod hwn a hynny wrth gwrs yn golygu hepgor noson o ymarfer a dysgu llinellau.

DYDDIAD CAU
14 HYDREF

CYSYLLTWCH Â
COLIN WILLIAMS
YR HAFOD
136 PARC Y FRO
CREIGIAU
0222 890979.

# MEISGIN

Gohebydd Lleol: Mererid Morris.

Wel, dyma wyliau'r haf wedi dod i ben a gobeithio i bawb fwynhau eu hunain. Bu rhan o'r gwyliau yn anhapus i un o wŷr ifanc y pentref sef Christopher Jones, Manor Park, oherwydd fe'i cymerwyd yn wael a rhaid oedd iddo dreulio peth amser yn yr ysbyty. Bellach mae wedi gwella yn iawn ac wedi dychwelyd i Ysgol Llanhari i'w flwyddyn olaf yno.

LLWYDDIANT ARHOLIAD

Llongyfarchiadau calonnog i Rachel Pogh, Sian David, Suzanne Edwards a Manon Morris ar eu llwyddiant yn yr arholiadau lefel 'O' ac 'A'. Dychwelodd Rachel a Manon i Ysgol Llanhari a bydd Sian yn cychwyn ar gwrs ym Mholitechnig Bryste a Suzanne yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

YSGOLORIAETH

Aeth un arall o bobl ifanc y pentref i'r Unol Daleithiau. Enillodd Jane Davies, Ceulan, ysgoloriaeth Rotary a bellach mae hi ym Mhrifysgol Virginia yn astudio am radd M.Sc. Dymunwn bob llwyddiant iddi hithau hefyd.

SYMUD I FRO'R **HOGWR**

Trist yw dweud y byddwn yn colli Mr a Mrs Glyn Davies, Manor Hill, o'r ardal ar ôl mwy nag ugain mlynedd. Byddant wedi symud i fyw i Coety i fod yn agos at eu mab erbyn y daw'r papur yma o'r wasg. Rwy'n siwr fod blynyddoedd hapus o'u blaenau yng nghwmni eu hwyrion a gobeithio y cawn glywed oddi wrthynt yn awr ac yn y man.

# LLANILLTUD FAERDRE

Gohebydd Lleol:
Gwyn Jones (202973)

YR YSGOL FEITHRIN

Dechreuodd tymor yr Hydref ar Fedi 7ed. Croeso cynnes i Mrs. Rhian Eyres, yr athrawes newydd, ac i'r plant bach i gyd. Os oes rhywun yn awyddus i'w plant ddechrau ar addysg Gymraeg dylid cysylltu â Mrs Eyres (207681) neu Mrs Rosemary Jones ar 202973.

Cynhelir Ffair Lyfrau'r Ysgol Feithrin ar ddydd Gwener, Hydref 2, yn Neuadd Dowlais, y drysau'n agor am 9.30. Bydd cyfle i brynu ac i archebu llyfrau, cardiau Nadolig, posteri ac yn y blaen. Croeso i bawb.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i'r teulu Job, Chandler's Reach, ar enedigaeth bachgen bach, Stuart, brawd i Claire.

POB LWC

Ffarweliwn â Dave a Linda Sidgwick a'r plant Dafydd a Lowri sydd newydd symud i Langennech, ger Llanelli. Pob dymuniad da iddynt yn eu tŷ newydd 'nol yng ngwlad y **sosban**.

****

Diolch yn fawr i Gwyn Jones am gytuno i ohebu o Llanilltud Faerdre. Ategwn y dymuniadau da i Linda Sidgwick a'i theulu gan ddiolch iddi am ei gwaith rhagorol dros y **Tafod**. Gobeithio y bydd Linda, Dave a'r plant yn dal i dderbyn y **Tafod** yn Llangennech ac y bydd yn help iddynt gadw cysylltiad â'r ardal hon.

# COLOMEN WEN I GYMRO'N Y CEUFOR

Gyda chymaint o sôn am derfysg yng ngwledydd yr Arab yn llenwi'r newyddion, roedd hi'n galondid derbyn newyddion da o'r ardaloedd hynny ym mhentref Efail Isaf.

Bu Stephen Williams yn byw yn yr Efail Isaf ar hyd ei oes. Bu'n fyfyriwr yng Ngarth Olwg a Rhydfelen ac wedi hynny ym Mholitechnig Cymru. Mae llawer yn cofio amdano fel gitarydd bâs y grŵp Shwn a fu ar y brig yn ystod y 70au. Ond y tro hwn sôn amdano'n briodfab mewn priodas yn Kuwait a'n cyrhaeddodd.

Mae Stephen ar hyn o bryd yn gweithio fel Peiriannydd Sifil yn Kuwait ac yno mae wedi cyfarfod a phriodi â Madalaine Marcus George, merch â'i gwreiddiau yn Iraq sy ar hyn o bryd yn gweithio yn Kuwait.

Yn ôl lluniau a gyrhaeddodd yr Efail Isaf mae'n sicr i lawenydd a heddwch deyrnasu yn ystod dathlu'r briodas ac fe gyflwynwyd colomen wen i'r pâr. Ni allwn ond dychmygu beth oedd yr arwyddocâd.

Cynhaliwyd y briodas mewn Eglwys Gristnogol Uniongred; mae Madelaine yn hannu o deulu Cristnogol.

Dymuna darllenwyr y **Tafod** yn dda i'r pâr, ac y mae croeso mawr yn eu disgwyl gan Mr a Mrs Ron Williams, Heol Dowlais, Efail Isaf.



YN EISIAU - 50 O FFROGIAU!

Mae'n debyg mai problem fwyaf Côr Merched y Garth yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn - ar wahân i gadw mewn tiwn ar eu casét newydd - yw chwilio am ffrogiau. Nid mater hawdd wedi'r cwbl yw cael rhywbeth fydd yn gweddu i hanner cant o ferched o bob oed a siâp. Bu'r aelodau'n chwilio'n ddyfal hyd raciau M & S, Laura Ashley, Richards Shops, Debenhams, ac ati ac ati, ond hyd yn hyn does dim wedi plesio. Yr awgrym diweddaraf oedd mynd i'r farchnad newydd yn Nhonysguboriau i chwilio am fargen, ond hyd yma does neb wedi llwyddo i fynd â char yn ddigon agos i'r lle ...

# LLYFR NEWYDD AR SYR JOHN

Llongyfarchiadau i Allan James, Llantrisant ar ymddangosiad ei gyfrol *John Morris-Jones* yn ystod yr haf. Hon yw'r ddiweddaraf yn y gyfres *Writers of Wales* a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru, ac ynddi mae Allan yn trafod cyfraniad rhyfeddol y gwron o Fôn i lenyddiaeth ein gwlad ac i ysgolheictod Cymraeg.

Gŵyr y rhan fwyaf ohonoch mae'n siŵr am Syr John Morris-Jones y bardd, yr athro, y beirniad a'r ysgolhaig, ond faint ohonoch sy'n gwybod tybed mai cyfnod hir o salwch fu'n gyfrifol am ddeffro ei ddiddordeb yn llenyddiaeth Cymru? Er mai bachgen o Fôn ydoedd, yn Aberhonddu y cafodd ei addysg uwchradd, a honno'n addysg glasurol o Anghymreig mae'n debyg. Yn ystod gwyliau'r haf, 1879, cafodd ei daro'n wael â'r frech sgarlad a bu'n rhaid iddo aros gartref o'r ysgol. Ddiwedd y flwyddyn honno hefyd, collodd ei dad, a bu gartref am gyfnod pellach yn helpu ei fam weddw. Yn ystod y cyfnod hwn, dechreuodd ddarllen llenyddiaeth Gymraeg, gan gynnwys gwaith Talhaearn a Cheiriog, ond yn bwysicach efallai, weithiau fel *Gorchestion Beirdd Cymru* a gynhwysai gerddi o gyfnod Aneirin hyd at ddiwedd cyfnod y cywyddwyr yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Er mai Mathemateg a astudiodd ar gyfer ei radd gyntaf yn Rhydychen, darlithoedd Syr John Rhŷs a darllen llyfrau Cymraeg yn llyfrgell Bodley a ai â'i fryd yno. Dyma gyfnod sefydlu Cymdeithas Dafydd ap Gwilym a chychwyn cyfeillgarwch â dynion fel Owen M. Edwards a Puleston Jones - cyfnod a oedd i ddwyn ffrwyth ar ei ganfed ym mywyd llenyddol Cymru.

Erbyn heddiw, ychydig sy'n sylweddoli efallai pa mor flêr oedd sefyllfa'r Gymraeg cyn cyfnod Syr John. Mae Allan yn ei lyfr yn dangos camp aruthrol y dyn gan ddadansoddi sut y brwydrodd trwy ei waith ysgolheigaidd diflino a thrwy ei fynych feirniadaethau o lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol i roi trefn ar orgraff a gramadeg llenorion Cymru.

Mae'n llyfr difyr a defnyddiol. Yr unig elfen chwithig i mi oedd y ffaith mai yn Saesneg y dyfynnir o farddoniaeth Syr John. Gwn mai dyma bolisi'r gyfres, ond onid yw'r egwyddor yn mynd yn rhemp weithiau? I mi, 'dyw trafod cyfieithiadau Syr John o waith Omar Khayyâm dyweder, a dyfynnu nid o'i gyfieithiad ef i'r Gymraeg, ond o gyfieithiad Fitzgerald neu Whinfield i'r Saesneg, ddim yn gwneud llawer o synnwyr. Does bosib na ellid bod wedi cynnwys y dyfyniadau Cymraeg ochr yn ochr â'r cyfieithiadau Saesneg.

Boed hynny fel y bo, diolch am astudiaeth gytbwys gan un sy'n amlwg yn edmygydd mawr o'i wrthrych. Caiff groeso mawr gan bawb sydd â diddordeb yn hanes llenyddiaeth Cymru.

G.M.R.

# CYFLWR CAPELI EIN GWLAD

Adolygiad o Lyfr
y Parch Gwyn Walters
'Unwaith Eto 'Nghymru Annwyl'

Mae tinc o hiraeth yn y llyfr ac atgofion am yr hyn oedd Capeli ac Eglwysi Cymru yn yr amser a fu, ac am hynny mae'n werth i unrhyw Gymro fanteisio i gael copi.

Ganwyd y Parch Dr Gwyn Walters yn Felin Foel ger Llanelli, a bedyddiwyd ef yng Nghapel Salem. Roedd ei fam yn gynathrawes ac wedi'i donio'n gerddorol, a bu farw pan oedd Gwyn yn unarddeg mlwydd oed. Symudodd y teulu yn ôl at y Methodiastiaid yn Saron, Ffwrnes, lle daeth ei Dad yn fuan yn flaenor yno.

Dechreuodd gymeryd diddordeb byw yn y capel a'r gweithgareddau ac aeth gyda'i Dad i Gyrddau Mawr pob enwad yng nghylch Llanell. Fe ddaeth i ymddiried yn bersonol yn yr Arglwydd Iesu Grist a teimlodd y carai dreulio ei fywyd yn cyhoeddi Crist i eraill.

Wedi graddio yng Nghaerdydd ac Aberystwyth enillodd Ddoethuriaeth yng Nghaeredin. Bu'n weinidog Presbyteraidd yng Nghaerdydd a Wilkes-Barre, Pennsylvania, U.D.A. Yn 1956 fe'i wahoddwyd i fynd yn Athro i Goleg Diwinyddol Prifysgol Temple yn Philadelphia. Ers chwarter canrif mae o yng Ngholeg Diwinyddol Gordon-Conwell, yn ymyl Boston, Massachusetts.

Treuliodd Gwyn Walters a'i wraig, Mair, flwyddyn sabothol yng Nghymru yn 1986-7 ac fe geir hanes ei brofiadau yn y llyfr. Gwasanaethodd Gapeli ac Eglwysi a nodi arbenigrwydd un Eglwys a thri Chapel, - mae ei sylwadau yn rhai adeiladol.



Mae hiraeth yn fy nghalon i
Am weld gogoniant fel y bu;
Efengyl gras yn seinio'n glir
A bywyd newydd yn y tir.
Rho Haleliwia eto'n rhad
I'w chanu yng nghalonnau'n gwlad.

O pam y trodd y traed o'th dŷ
A chilio o'r torfeydd yn llu?
Beth yw y ffug a'u swynodd hwy?
Pam nad yw ffydd dy blant yn fwy?
Rho Haleliwia eto'n rhad
I'w chanu yng nghalonnau'n gwlad.

Gwna ni'n edifar am y loes
A roesom ni i Grist y Groes,
A maddau inni am dristáu
Dy ysbryd glân drwy'n bywyd gau.
Rho Haleliwia eto'n rhad
I'w chanu yng nghalonnau'n gwlad.

GWYN WALTERS

Bydd aelodau Tabernacl, Efail Isaf, yn cofio am ei ymweliad a bydd ei lyfr yn drysor gwerthfawr iddynt. Yn ychwanegol mae y cyfarwyddiadau tuag at weithgarwch yr Eglwysi yn rhai gwerthfawr i Weinidogion, Syddogion ac aelodau a byddai trafod y llyfr yn fanteisiol i bob enwad.

A.W.


# DIM 'CAINC'

Methwyd â chynnal noson olaf taith Theatr Bara Caws yn Neuadd Dowlais ar Ddydd Sadwrn, Medi 18ed, oherwydd fod nenfwd y neuadd yn rhy isel i gynnwys y 'set'. Bu'r cwmni yn perfformio 'Tair Cainc a Hanner', cynhyrchiad arbennig i ddathlu ei ddegfed penblwydd, mewn neuaddau drwy Gymru ers yr Eisteddfod. Yn Nyffryn Nantlle, ar ddechrau'r daith, gohiriwyd un perfformiad am fod y neuadd ddim yn addas ac fe aeth y cwmni i gryn drafferth i sicrhau fod pob neuadd yn addas (ond am Neuadd Dowlais). Ar ôl gweld fod Neuadd Dowlais yn anaddas ceisiwyd cael neuadd arall yn yr ardal. Yn anffodus nid oedd y cyflenwad trydan yn ddigonol yn Neuadd Pentyrch i gynnal holl oleadau'r sioe.

Siomwyd nifer o ddilynwyr y cwmni a oedd wedi bod yn edrych ymlaen i weld y cynhyrchiad gan gynnwys nifer o blant ysgol. Yn ôl cynrychiolydd y Cwmni bu cryn bwysau arnynt gan Gyngor y Celfyddydau i ddefnyddio set mwy 'gweladwy' ac mae'n bosib mai oherwydd hyn y cynlluniwyd set oedd yn rhy fawr i nifer o'n neuaddau pentref. Gobeithir llwyfannu cynhyrchiad nesaf y cwmni yn yr ardal ym mis Chwefror.

# CERDYN POST o Lantrisant

Gan amlaf ychydig iawn o wybodaeth a gynhwysir ar gerdyn post, ond pe tasech chi wedi digwydd derbyn cerdyn o Lantrisant ychydig yn ôl, mi fasech wedi elwa cryn dipyn.



Na, nid am y tywydd a'r traeth, y bwyd a'r bola-heulo y bu Mererid Morris, Catherine John, Miles Richards, Geraint Huws a Geraint Price yn sôn, ond am bethau amgenach o lawer - oll yn ymwneud ag ardal ddiddorol Llantrisant.

Rhaglen newydd sbon - y gyntaf mewn cyfres - yn cael ei llywio'n fedrus iawn gan Gerallt Pennant, yw "Cerdyn Post", lle mae Gerallt - ag arno ôl gwneud gwaith cartref manwl - yn ymweld ag ardal arbennig trwy brofiadau ei thrigolion. I Lantrisant y dewisodd fynd ar gyfer ei raglen gyntaf felly.

Bobol ddwad oedd tri o'r cymeriadau, a Miles a Catherine yn ymfalchio yn eu tras frodorol. Deuai'r gwahanol acenion a rhyw ffresni braf i'r rhaglen - a gellwch ddychmygu'r problemau wrth i Mererid (ogleddol!) deithio'n y car efo Catherine (frodorol!) i Ferched y Wawr rai blynyddoedd yn ôl bellach! Ychydig o 'ddeall' a fu rhyngddynt yn y cyfnod cynnar. Ond ni rwystrodd rhyw ychydig o eiriau dieithr hwnt ac yma i'r gyfeillach rhwng y Cymry dyfu'n un glos yn yr ardal hon. Clywsom am ddycnwch a dyfalbarhad Mererid a'i chyfeillion yn eu hymwneud â sefydlu Ysgol Feithrin yn y cylch. Cyfeiriodd Geraint Price gyda balchder at yr ysgolion Cymraeg llewyrchus sy'n gwasanaethu'r ardal - ei blant ef yn derbyn addysg naturiol Gymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, yntau'n athro ei hunan yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Geraint Huws wedyn yn honni mai rygbi a'i denodd i Lantrisant - sgersli bilîf! - onid oes rhyw fynach yn rhywle a chanddo rhywbeth i'w wneud â'r peth?! Tîm rygbi Llantrisant, medde fe, wedi gorffen ar frig y tabl y tymor diwethaf yma. Dylai ef wybod ag yntau'n ohebydd chwaraeon i'n Papur Bro!

Miles wedyn yn wilia rhyw ychydig am ei gefndir ef - a'r Wenhwyseg yna'n treiglo oddi ar ei dafod. Miles yn ôl ei arfer yn llawn afiaith - ac wrth gwrs yn "dlawd a balch a byw mewn gobath!"

Fferm Talyfedw ydoedd cartref Catherine John. Bellach gwraig fferm wedi ymddeol ydyw, a'i mab yn ffermio. Diddorol ydoedd clywed enwau'r ffermydd cyfagos megis Castell y Wawr, Llwynau, Rhiwfelin Fawr, a Garth Graban - enw a barodd gryn benbleth i'r gwybodusion. 'Sgrapan' medde Miles ydoedd yr enw ar "lafer gwlêd" ond wyddai yntau ddim o ble daeth yr enw. Bu newid dirfawr ar ffordd o fyw'r amaethwyr ers dyddiau cynnar Catherine ar fferm Talyfedw. Y ceffyl yn cael ei ddisodli gan y tractor. Mynte'n gryno "rodd llai o arian yn dod miwn ond mwy yn aros yn y pwrs!"


Mi roedd 'na ryw fath o gynllun i'r rhaglen - os cynllun hefyd! - wedi'r cyflwyniad ffwrdd â hi, gofynnodd Gerallt iddynt oll ac un nodi rhyw beth neu fan arbennig y carent ei warchod.

Mynnai Catherine gael cadw'r arfer hynafol o 'Gerdded y Terfyn'. Defod a gymer le bob saith mlynedd, lle gwelir ehyddfreinwyr yr ardal yn cerdded ffin y pentre er mwyn pwysleisio maint y plwyf i'r to sy'n codi ac i sicrhau nad oes newid yn y ffiniau. Er eu hanhwylustod mae Catherine hefyd am gadw'r ffyrdd â 'cobbles' sy'n tarddu o ben ucha Llantrisant - heb anghofio'r gofeb i'r rhyfeddol Ddoctor William Price, "dyn od iawn" mynte tad Catherine, a'i hadnabyddai.



# CERDYN POST

# o Lantrisant



Ganwyd i'r Doctor fab, fe'i bedyddiwyd yn Iesu Grist, - ar farwolaeth ei fab, penderfynodd y Doctor losgi ei gorff, a dyma'r enghraifft cyntaf o amlosgi yn ein hanes. Bu achos llys yn erbyn y Doctor - ac yntau'n amddiffyn ei achos yn y llys yng Nghaerdydd, bu'n fuddugoliaethus - ac wedi hynny gwelwyd yr amlosgfa gyntaf yn cael ei sefydlu yng Nglyntaf, ger Pontypridd.

Mererid, yn ôl ei harfer am amddiffyn hawliau - hawliau'r rhyddfreinwyr ar dir pori'r Comin yn Llantrisant y tro hwn. Bu'r Comin dan fygythiad gan y Bwrdd Glo yn ddiweddar, bygythiad a allasai brofi'n gryn ergyd i'r dyn annibynnol Llantrisant sy'n gynefin â 'brochgae' neu 'reido acha ceffyl' mynte Miles, a'u pori ar dir agored Llantrisant.


Miles ei hunan yn dymuno gweld codi cofeb yn Castellau, nid nepell o Lantrisant i gyfeiriad y Beddau, ar y llecyn lle gynt y safai Hen Dŷ Cwrdd y Crynwyr. Un peth yn unig fyddai hynny gan fod yma "gwmint o bethe sy'n hiddi 'u cadw" - heb anghofio man arall cysygredig sef Clwb Rygbi Llantrisant!

I ryw sefydliad nid anhebyg yr â Geraint Huws i gael ei "swyno'n feunosol". Llecyn bach oddi ar yr M4 lle'r encilia i roi'r byd yn ei le - ac i ddisychedu wedi diwrnod caled o ymlafnio yn ceisio achub yr iaith! Ar yr iaith a glyw yno y mae'n meddwi, medde fe - nid ar HB sbo! Castell Duncan yw'r cysygredig fangre y mae ef am ei gwarchod cans yno y caiff fwynhau'r Wenhwyseg ar ei glust.

Roedd ehangach ystod i'r hyn y carai Geraint Price ei warchod - Cymreictod yr ardal - yn ei holl ogoniant. Cymreictod a gaiff ei amlygu pan ddaw Eisteddfod yr Urdd i Lantrisant yn 1991 - peidied neb â phoeni - mae yma weithwyr dygn a diflino a wnaiff sicrhau ei llwyddiant yn ddios.

Rhaglen ddifyr iawn - treiwch chi gael cymaint â hynna ar gerdyn post!

# YR HEN BONT



Saif Pontypridd yn dref farchnad bwysig ryw ddeuddeg milltir o Gaerdydd. Saif, lle y cwrdd y ddwy afon, y Rhondda a'r Tâf ac wrth gyffordd y rheilffyrdd a rêd o Gaerdydd i'r Rhondda, Merthyr ac erstalwm i Aberdâr. Mae hi heddiw yn rhan o fwrdeistref Tâf Elai sydd hefyd yn cynnwys Llantrisant, un o'r trefi hynaf yn Ne Cymru. Mae hon yn dref sy'n enwog iawn yn yr ardal yma am ei chysylltiadau a'r anfarwol Dr. William Price.

Enw llawn Pontypridd ydyw Pont-y-tŷ-pridd enw diddorol iawn yn ôl ei hanes. Ni chyfeirir y bont yn yr enw at bont William Edwards fel y credir gan yr amryw ond yn hytrach at bompren, llawer hŷn a groesai'r Tâf rywle tu cefn i le saif y siop boblogaidd Marks a Spencer heddiw. Yn wir, yn ôl yr hanes roedd yr hen bompren yma ar gael flynyddoedd cyn yr adeiladwyd pont un fwa William Edwards ar ochr arall y dref. Safai'r tŷ pridd ar un pen i'r bompren yma. Felly camgymeriad hollol ydyw cysylltu'r enw Pontypridd a phont William Edwards.

Fe adeiladwyd 'Yr Hen Bont' yn 1755 gan William Edwards, maswn a oedd heb addysg dechnegol o unrhyw fath, yn wir yr oedd o ran alwedigaeth yn weinidog yr Efengyl. Dyn arbennig oedd bid siwr, defnyddiodd cerrig yr ardal at y gwaith a dywed rhai mai champ pensaerniol oedd, gan mai hon oedd yr unig bont ac un fwa iddi yn y wlad os nad yn y byd.

Ceisiodd adeiladu'r bont dair gwaith ond cwympodd y bont y tro cyntaf a'r ail dro o dan bwysau'r dwr pan orlifai'r afon ond ni ddigalonodd William Edwards. Aeth ati y drydedd waith a'r tro hwn holltodd tri thwll graddedig eu maint ar y naill ochr a'r llall i'r bont a llwyddodd gystal fel bo'r bont yn sefyll hyd heddiw yn dystiolaeth fyw i'w ddawn arbennig.

Yr hyn sy'n ddiddorol i ni heddiw ydyw, i enw'r dref gael ei newid i Newbridge ar ôl pont newydd William Edwards a dyna sut y bu hi am flynyddoedd ond yn ddiweddarach, ailgydiwyd yn yr enw Pontypridd gan fod awdurdodau'r post yn cymysgu'r enw a'r Newbridge arall yn Sir Fynwy.

Agorwyd pont arall wrth ochr "Yr Hen Bont" yn 1857 a'i henw oedd Pont Victoria. Dyma'r bont a ddefnyddir gan bawb heddiw wrth fynd dros yr afon Tâf o'r dref tua'r Comin.

Gwendoline Jones

# FFAU'R PLANT

Penblwydd hapus i chi
Penblwydd hapus i chi....

pawb sydd yn dathlu ei benblwydd ym Mis Hydref. Mae'r Tafod yn ddwy oed y y mis hwn.

Mae tymor pêl droed a rygbi yma nawr a chi'r bois yn brysur yn cicio peli lledr pob amser chwarae. Dydw i ddim yn gwybod llawer iawn am bêl droed ac o mi hoffwn i wybod mwy. Tybed fyddai rhai ohonoch chi'n anfon enwau timau a chwaraewyr pêl droed ataf fi i:-

Nawdd-dir
Heol Coedpenmaen
Trallwn
PONTYPRIDD

erbyn diwedd y mis. Wedyn fe allwn gael tudalen am bêl droed rhyw fis.

<u>Penblwydd pwy sydd y misoedd hyn?</u>

Ionawr 

Chwefror 

Mawrth 

Ebrill 

Mai 

Mehefin 

Gorffennaf 

Awst 

Medi 

Hydref 


Tachwedd 

Rhagfyr 


Penblwydd Hapus i'r Tafod
oddi wrth

FFILMIAU ELIDIR

Ymgynghorwyr Darlledu a Chynhyrchwyr Teledu





Cofiwch am ein cyfres newydd
Nos Wener, Hydref 30ain ar

S4C


Ydych chi wedi sylwi ar y mes yn tyfu ar y coed Derw. Maen nhw fel cwpan a soser.



Castan o'r goeden Gastanwydden yw'r ffrwyth hwn.




Gofynnwch i'ch Mam roi castan mewn finegr a'i roi yn y ffwrn i galedu. Chi fydd yn ennill pob gornest wedyn.

# BYWYD
gan
Tom Dom

## HYDREF



Y Garth o fynydd Graig yr Allt, Ffynnon Taf.




Adeg aeddfedu cyn y pydru. Ffrwythau a hadau yn ffrwydro o blanhigion. Adar yn newid eu dull o fwyta i fanteisio ar ffrwythau'r ysgawen, egroes, mwyar a crawel y moch. Anifeiliaid bychain yn fwrlwm o weithgaredd i fanteisio ar gynnyrch digonol natur. Llygod y maes a llygod y goedwig yn mentro o'i nythod ym mherfeddion y perthi i dwrio am gnau cyll, mês a ffrwythau eraill, a'i paratoi gogyfer a'r gaeaf. Mae'r rhedyn yn sychu ac yn cochi ar y bryniau ac mae pob math o ffwng yn tyfu ar goed ac ar y meysydd. Gwelir draenogod yn brysur stwffio'i hunan a malwod a chwilod ar yr un pryd yn paratoi o dan flancedi o ddail.

Mae CYNLLUN MYNYDD CAERFFILI yn cynnal gweithgareddau i'r cyhoedd yn gyson fel bod pawb yn medru ymhyfrydu yn ysblander byd natur cyfoethog ein hardal.

Hydref 3ydd. TAITH DEULUOL. Arweinir gan arbenigwyr o'r Amgueddfa Genedlaethol. Cyfarfod yn maes parcio Rudry am 2.00 prynhawn.

Hydref 4ydd. YMDAITH GWAWRIO HYDREFOL. Mr David Hale yn arwain grwp o faes parcio Mynydd y Garth am 6.45 y bore (2 Filltir)

Hydref 11ed. WATERLOO, COED CEFN PWLL DU, RUPERRA. Cyfarfod maes parcio Rudry am 2.00 prynhawn (8 milltir).



Hydref 18ed. TAITH LLIWIAU'R HYDREF ar y Garth Fechan. Jean Henderson a David Jenkins yn arwain, parciwch yn mynedfa Cwar Steetley, Heol Goch, Pentyrch, 2.00 prynhawn (3-4 milltir).

Hydref 25ed. BYD FFWNG Chris Knibbs yn ein cludo i fyd hudol y Ffwng. Cyfarfod Heol y Nant, Gwaelod y Garth, 2.00 prynhawn (2-3 milltir)

Tachwedd 1af. COED COESAU WHIPS A COED LLWYNCELYN. Cyfarfod rhwng Llysfaen a Rudry am 1.30 prynhawn ( 3 milltir)

Tachwedd 8ed TAITH PEDAIR COMIN Mae'n rhaid ichi gysylltu gyda Mr Phil Jayne i fynd ar y daith hon - ffoniwch Caerdydd 820751. Mae'r daith yn cychwyn am 9.30 y bore o Neuadd y Pentref, Pentyrch.

# Portread y Mis

Bu treulio awr neu ddwy yng nghwmni Mrs Morfydd Thomas yn ddiweddar yn gyfle i mi gael cipolwg ar fywyd cymdeithas gyfan, Cymraeg ei hiaith, fu'n troedio llwybrau'r pentre 'ma ymhell cyn i rai fel ni feddwl am gartrefu yn unman.

Disgynyddion y rhain sy'n troi i'r Gymraeg yn siopau'r pentre heddiw, wrth glywed ein parabl ni a'n plant. Mae'n nhw wedi gweld y cylch cyfan, o unieithrwydd Cymraeg y pentre, drwy'r Seisnigo anochel, i'r adfywiad presennol dan law Cymry dwad fel ni, a'r teuluoedd brodorol hynny sy'n mynnu bod eu plant yn ail-afael yn yr iaith.

Mae Morfydd Thomas yn un o'r tystion hyn, ac mae hi'n diolch am gael gweld y llanw wedi'r trai. Ei hunig ofid yn hyn o beth yw fod capeli Cymraeg Pentyrch i gyd wedi eu chwalu, eu trawsnewid neu eu Seisnigo cyn i ni gyrraedd.

Fe gofia hi gyda balchder am ddiaconiaid Capel Penuel yn gwrthod cydymffurfio â chais Norwyiad o'r enw Mr Schroeter, arferai fyw yn Greenhurst. Roedd yn Fedyddiwr rhonc, a gofynnodd am gyfarfod â diaconiaid Penuel gyda golwg ar droi un gwasanaeth bob Sul yn un Saesneg, fel y gallai ymaelodi. Gwrthodwyd ei gais ar y sail nad oedd digon o drogolion y pentre'n deall Saesneg, ac mai Cymraeg oedd iaith holl blant yr Ysgol Sul. Aeth Mr Schroeter yn ei flaen i sefydlu'r "Pentyrch Mission" yn un o fythynnod Castle Cottages, wrth ymyl y Garej, ac fe barhaodd aelodau Penuel i addoli yn eu mamiaith.

Un o'r "Cae Wals" yw Morfydd Thomas ac mae'n falch o'i thras. Cae Wal wrth ymyl Field Terrace, oedd cartre ei thad, Richard Davies, a Dic Cae Wal oedd o i bawb o'i gydnabod. Margaret Gelli Dawel oedd ei mam. Safai Gelli Dawel ar ben ucha Heol Goch, wrth ymyl Penygarn. Yn Gelli Dawel a Cae Wal y bu Mrs Thomas hithau gydol ei phlentyndod, ar wahan i ddeunaw mis yn Ynyshir, pan benderfynodd ei rhieni y byddai'n well symud yno i fod yn nes at waith ei thad. Ond bu blwyddyn a hanner o Bentyrch yn fwy na digon i'r teulu, ac yn ôl y bu raid dod.



MORFYDD THOMAS,

PENTYRCH

Wedi gadael yr ysgol, bu Mrs Thomas yn gweithio i gwmni cyhoeddi William Lewis, Penarth Road, yn darllen llawysgrifau. Fe briododd â Windsor Thomas, o Waelod y Garth, ac yn ystod y rhyfel bu'n gweithio fel teleffonydd yn Swyddfa'r Post yn Radur.

Mae pawb ohonom ym Mhentych wedi cael digon o gyfle yn ein tro i weld lluniau'r pentre cyn y datblygu mawr, ac mae'n hawdd deall pam fod gan Mrs Thomas a'i chyfoedion cymaint o feddwl o'r lle. Nid yw bwrlwm ac asbri ein cymdeithas ni heddiw yn ddim byd newydd i'r parthau hyn. Mae gorffenol ein pentre wedi ei drwytho yn hen arferion a thraddodiadau'r Cymry. Wedi'r cwbwl, oni fu'r Fari Lwyd yn fawr ei bri yma? Ac fe gofia Morfydd Thomas yn dda hefyd am yr hen arfer o gadw Gwylnos noson cyn angladd.

Mae ei hatgofion am yr hanesion a gâi gan ei rhieni'n anghyffredin o ddiddorol - fel hanes y gŵr a drigai yn Maes yr Haul yn gweld clociau ar werth yng Nghaerdydd, ac yn rhyfeddu fod y ffasiwn ddyfais yn bod. Wedi dysgu dweud yr amser, prynodd un ei hun, a dylifai trigolion yr ardal i'w fwthyn i weld cloc cynta'r cylch! - Neu'r stori am y niferoedd a âi i Fferm Llwyndaddu er mwyn gweld sut i wneud paned o de, a'i flasu am y tro cynta erioed!

Mae Morfydd Thomas yn cofio holl gyffro ymweliad y bws cynta â Phentyrch ym Mis Mai 1925, a thaith ynddo o Bentyrch i'r pwerdy yn costio swllt a phump. Ac yna, bum mlynedd yn ddiweddarach, dyfodiad trydan i'r pentre, i ddisodli'r lampau olew a'r canhwyllau wnaeth gymaint i ddiddosi'r gaeafau hir a thywyll iddi hi a'i chyfoedion.

Pleser digymysg oedd gwrando ar Mrs Thomas yn rhaffu enwau tai a heolydd y pentre: Penygarn, Pentir Hir, Llwyndaddu, Tŷ Crydd, Penuel Fach, Berthlwyd, Gelli Dawel, Cae Wal, Cefn Bychan, Perthi Bach, Tynywaun. Mae ei hafiaith a'i thafodiaith yn tystio'n ddigamsyniol i'r llewyrch a fu ar y Gymraeg yn y pentre, a does neb yn falchach na hi o weld yr adferiad presennol.

Bu Morfydd a Windsor Thomas yn cadw aelwyd gynnes, groesawus, lawen yma am dros hanner canrif. Fe dystia pawb i'w hiwmor iach, eu lletygarwch a'u caredigrwydd di-bendraw.

Mae Mrs Thomas yn cael trafferth i symud erbyn hyn, oherwydd anhwylder ar ei choes, ac wedi treulio blwyddyn a hanner mewn ysbytai. Mae hi ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mhontypridd, ac mae ymweliadau gan ei theulu a'i ffrindiau wedi bod yn gysur mawr. Bu colli ei gŵr dair blynedd yn ôl yn ergyd drom iddi a'i anhwylder hithau'n prysur waethygu. Ni fynnai driniaeth ysbyty ar y pryd am y teimlai fod rhaid iddi ofalu am y ci bach a olygai gymaint i'w gŵr. Bu Ki-Ki yn gwmni ffyddlon iddi yn ei galar, a phan fu farw'r ci, teimlai Mrs Thomas o'r diwedd ei bod hi'n hen bryd iddi roi sylw i'w anhwylderau ei hun.

Bu'n amhosib sôn am Morfydd Thomas heb sôn am Bentyrch. Mae hi'n ymgorfforiad o bethau gorau'r pentre, ac yn meddwl y byd o'r lle. Ac mae'n braf cael dweud fod pawb sy'n ei hadnabod, yn hen ac ifanc, yn meddwl y byd ohoni hithau, ac yn fawr eu parch a'u hedmygedd ohoni.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies - 891344

MERCHED Y WAWR

Cafwyd noson agoriadol raenus a hwyliog i'r tymor newydd yng Nghangen y Garth ar Fedi'r 10fed. Bu Dafydd Idris a Menna Thomas, dau enillydd cenedlaethol o fri, yn cyflwyno detholiad o ganu gwerin, a bu'r noson yn wledd i'r glust yn wir. Fel sy'n arferol ar noson gynta'r tymor, roedd y pwyllgor wedi sicrhau fod digonedd o luniaeth ar gael.

Bydd y cyfarfod nesa Nos Iau Hydref 8fed, a'r testun y noson honno fydd "Gwneud Doliau" yng nghwni Eirlys Davies. Os ydych am fynd i'r Cinio Nadolig yng Nghlwb y Bont, nos Wener Rhagfyr 11eg, fe ddylech roi eich enw ar y rhestr y noson honno.

DYMUNIADAU DA

Wrth longyfarch holl blant y pentre fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau TAG, lefel O ac A, TAU, a TAGA, dymunwn yn dda i'r rhai hynny fydd yn parhau i astudio mewn ysgol a choleg, a'r rhai fydd yn dechrau gyrfa newydd. Fe wyddon am un o leia fydd yn ein gadael dros dro. Mae Iestyn Griffiths, Llwyn Celyn, yn mynd i'r Coleg Normal, ym Mangor, i ddilyn Cwrs Cyfathrebu. Pob hwyl iddo yn y Gogledd.

DYWEDDIAD

Llongyfarchiadau i Andrew, mab Howard a Myra Thomas, 5 Pantbach, ar ei ddyweddiad â Sally Davies o Bencoed.

SIOE PENTYRCH

Cynhaliwyd Sioe Flynyddol Pentyrch Ddydd Sadwrn a'r Sul, Medi 5 a 6, ac roedd yr arddangosfa gardd a chegin a gwaith llaw yn werth ei gweld fel arfer. Bu ambell un o ddarllenwyr y **Tafod** yn llwyddiannus yno, a llongyfarchwn nhw i gyd yn galonnog.

# PONTYPRIDD

Gohebwyr Lleol:
Margaret a Dafydd Francis

BRAF CAEL BOD 'NOL

Mae plant adran gynradd Ysgol Pont Sion Norton wedi dychwelyd i'r ysgol ers dechrau'r tymor ar ôl cyfnod yn defnyddio ystafelloedd yn Ysgol Evan James. Mae'n siwr fod y rhieni yn falch bod yr ysgol yn unedig unwaith eto.

SALWCH

Mae Mrs Sally Owens o Ynysybwl wedi bod yn ddi-hwyl ers tro. Mae hi ar hyn o bryd gyda'i merch, Caryl, yn Graigwen, Pontypridd. Rwy'n siwr fod pawb yn falch o glywed ei bod wedi gwella tipyn.

DAMWAIN

Cafodd Mr Glyn Davies ddamwain gas yn ystod yr haf. Fe dorrodd ei goes, ac mae wedi bod yn yr ysbyty ers wythnosau bellach. Mae Mr Davies yn flaenor ffyddlon yng Nghapel Sardis. Gobeithio y bydd e'n holliach yn fuan, ac yn ôl adre gyda'i wraig.

PRIODAS

Priodwyd Alun Williams a Bethan Phillips yn Y Porth ar y 29fed o Orffennaf. Mae Alun yn athro yn yr adran gynradd yn Ysgol Gymraeg Pontsiônnorton, ac mae Bethan yn athrawes yn yr adran fabanod yn Ysgol Gymraeg Bodringallt, Ystrad Rhondda. Maent wedi ymgartrefu yn y Porth. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt.

YSGOL SUL SARDIS

Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau eto ar ôl gwyliau'r haf. Braf gweld y plant nôl. Mae llawer o'r plant yn bwriadu mynd i aros dros y penwythnos yng Ngholeg Trefeca yn ystod mis Hydref.

# YNYS-Y-BWL

Gohebydd Lleol: Nansi Valentine

CANMLWYDDIANT YSGOL TREROBART

Cyflwynwyd mwg hardd gan Gyngor Cymuned Ynysybwl i ddathlu'r achlysur arbennig yma. Mae mygiau a phlatiau ar werth i'r cyhoedd ac i'w cael o'r ysgol.

GŴYL FLODAU

Cynhaliwyd gŵyl flodau yn Eglwys Llanwynno ar Awst 29,30,31. Hyfrydwch oedd gweld yr Eglwys yn edrych mor hardd. Ar y Nos Sul daeth nifer ynghyd i ganu mawl. Uchafbwynt yr Ŵyl oedd priodas ar y Dydd Llun a'r briodferch yn ychwanegu at y prydferthwch.

DYWEDDÏAD

Llongyfarchiadau i'r Parch Gwilym E. Davies a Dr Eirian Davies Jones ar eu dyweddïad. Pob bendith a hapusrwydd yw dymuniad aelodau Eglwys Noddfa i chi.

CYDYMDEIMLAD

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Megan Jones. Roedd Mrs Jones yn aelod ffyddlon er pan yn blentyn yn Eglwys Noddfa. Y mae ein colled yn fawr. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

## Cantorion Creigiau

Siom i Gantorion Creigiau oedd gorfod gohirio ei ymweliad â'r Dwyrain Canol oherwydd yr amgylchiadau yn y Gwlff. Roedd y côr wedi bwriadu ymweld â Muscat yng Ngwlff Oman ddiwedd mis Hydref, ond penderfynwyd mai doethach fyddai aros hyd nes y byddai'r sefyllfa yno yn llai ansicr.

Bydd y côr yn cynnal cyngerdd yn Ysgol Sant Martin, Caerffili ar yr 8fed o Hydref a'r elw'n mynd tuag at ymchwil i gancr.

Mae cyngerdd hefyd i'w gynnal yn Ysgol Gynradd y Creigiau tua diwedd y mis. Bydd yr elw'n mynd tuag at yr ysgol.

Dymuna'r côr wellhad buan i Elfyn Hopkin, Y Groesfaen, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Bu Elfyn yn llyfrgellydd brwdfrydig ac yn aelod blaenllaw o adran y tenoriaid am flynyddoedd.

## Côr Merched y Garth

Bu'r penwythnos Medi 19-20 yn un prysur iawn i Ferched y Garth. Buont wrthi trwy gydol y Sadwrn a'r Sul yn recordio deuddeg o ganeuon yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy ar gyfer casét a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir gan gwmni *Sain*.

Gobeithiwn allu cyhoeddi rhagor o fanylion am y casét yn rhifyn nesaf y *Tafod* ond mae'n ymddangos y bydd yn cynnwys saith o eitemau Cerdd Dant wedi'u gosod gan Alwena Roberts, arweinydd y côr, nifer ohonynt yn ddarnau y bu'r côr yn fuddugol arnynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn yr Ŵyl Gerdd Dant. Bydd y pum darn arall yn drefniadau gan Eirlys Gravelle o alawon gwerin a cherddi ysgafn.

Mae'n bosibl y bydd y casét yn cael ei gyhoeddi erbyn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Aberhonddu y mis nesaf, ond bydd yn sicr ar werth yn y siopau cyn y Nadolig.

# LLANTRISANT

**Gohebydd: Eirlys Lamb**

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Ambrose Davies, Parkdale View, Llantrisant ar ddathlu eu priodas aur yn ystod mis Awst.

LLWYDDIANT

Bu nifer o blant y cylch yn llwyddiannus yn yr arholiadau lefel A, O a TAU yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau iddynt oll a phob hwyl iddynt eto yn y dyfodol.

CROESO

Estynnwn groeso mawr i Mr Silyn Roberts i'w swydd newydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant. Brodor o Ddyserth yw Mr Roberts. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn y cylch yma. Mr Roberts sydd wedi cymryd lle Mr Eurof James sydd bellach wedi dechrau ar ei swydd newydd fel dirprwy brifathro Ysgol Castellau.

*****

Dymuniadau gorau hefyd i ohebydd y golofn hon, Eirlys Lamb, sydd wedi dechrau y tymor yma ar ei swydd newydd fel athrawes yn Ysgol Gynradd y Cefn, Glyn-coch.

# TONYREFAIL

**Gohebydd: D.J. Davies**

Cafodd Siân Jones, merch Mr a Mrs Walter Jones, haf pur gythryblus. Ddau ddiwrnod cyn roedd hi i fod i gychwyn ar ei gwyliau gyda'r teulu i Iwgoslafia, cafodd ei tharo'n wael a'i rhuthro i Ysbyty Dwyrain Morgannwg i gael tynnu'i phendics. Yn naturiol, bu'n rhaid gohirio'r gwyliau, ond da clywed ei bod wedi gwella'n ddigon da erbyn diwedd mis Awst i fwynhau seibiant yn yr Eidal.

# MERCHED Y WAWR CANGEN Y GARTH

Cafodd tymor newydd Merched y Wawr gychwyn bendigedig yng nghwmni'r per baledwr Dafydd Idris, a'i gyfeilles, am y noson, Menna Thomas. Daeth criw da iawn ynghyd i fwynhau rhaglen ddifyr, ac amrywiol, o ganu gwerin, y llon a'r lleddf yn asio'n ardderchog, a Dafydd a Menna nid yn unig yn canu gydag arddeliad ond yn cyflwyno'u caneuon yr un mor ddyheuig. Dafydd ar ei focs sebon siofinistaidd, yn ôl ei arfer, ond Menna yn hen ddigon o ddynes i ddal ei thir - yn ateb cyhuddiadau'r llanc efo caneuon ysgafn, llawn direidi. Dwi'n sicr fod pob un oedd yn bresennol wedi mwynhau llawn cymaint ag y gwnaeth Gwenful - a ddiolchodd yn gynnes iddynt eu dau. Gwledd o noson. Cewch fwy o ymuno â Merched y Wawr, Cangen y Garth, sy'n cyfarfod ar yr ail nos Iau yn fisol.

# Y CREIGIAU

SIOP Y BONT

Croeso cynnes a dymuniadau da i Gymraes newydd a'i theulu a ymgartrefodd yn 11, Parc Castell y Mynach yn yr ystod yr haf. Mrs Catherine Malcolm yw tenant newydd siop fach y rheilffordd sy'n gwerthu llysiau a ffrwythau. Mae Mrs Malcolm yn arbenigo mewn gosod blodau. Galwch heibio am dusw bach ar gyfer y penblwydd priodas hwnnw y bu bron i chi ei anghofio.

GWIN CARTREF

Llongyfarchiadau calonnog i newydd ddyfodiaid eraill y pentref - bu Doug Jones, 90 Parc y Fro yn llwyddiannus gyda'i win cartref yn Sioe Flynyddol Llantrisant, ar Awst 30ain a'r 31ain. Enillodd ail wobr am botelaid o win coch melys ac ail wobr arall am win gwyn sych. I'r un cartref aeth ail a thrydedd wobr arall, am grosio y tro hwn, gwaith Biddy ei wraig.



Y 'Tafod' ar werth yn Siop y Bont

CARAFAN A GARAF I

Newyddion da a ddaeth i'r bro - i deulu o sipsiwn bach oedd a'u carafan a'u ceffyl ffyddlon yn dechrau heneiddio - yn enwedig o ystyried iddynt deithio dros saith mil o filltiroedd yr haf yma! Drwy gystadlu ar un o gystadleuthau 'Woman's Weekly' ychydig yn ôl - enillon nhw garafan newydd sbon danlli - a char yr un mor newydd, i'w thynnu. Alla'r fath lwc dda ddim dod i ran teulu dedwyddach. Da iawn chi Gwenllian, Peter, Huw a Rhianwen - bant â chi i fwynhau eich hunain! (Dyna sy'n digwydd i ohebwyr y **Tafod** welwch chi!).

Y CYMRY AR GYNYDD

Croeso i deulu Ifor a Sue Hall, sy newydd symud i'w cartref newydd yn 6 Maes y Dderwen, Maes Mynach. Dysgu ym Mhont sion norton mae Sue, tra bo Ifor yn ddarlithydd yng Ngholeg Technegol y Barri. Mae'r plant eisioes wedi hen ymgartrefu.

FFARWELIO

Byddwn yn ffarwelio â Huw Tregelles Williams cyn bo hir. Er ei fod wedi bod yn hapus ym Mharc y Fro, mae wedi penderfynu symud yn nes at ei waith yn y BBC. Dymunwn yn dda iddo yn ei gartref newydd ac rydym yn arbennig o falch ei fod am barhau i dderbyn y Tafod!



# CEFNOGWCH CLWB Y BONT

Bu Clwb y Bont trwy amserau digon anodd yn y gorffenol a bu bron i'r hwch fynd drwy'r siop sawl gwaith ond 'rydym yn gobeithio ein bod wedi troi'r gornel yn ariannol er ni allwn llaesu dwylo ar y mater yma chwaith a prin dal ein pennau uwch y dŵr (yn llythrennol hefyd!) ydym ni.

Ond yr hyn sydd yn ein poeni bellach yw cyn lleied o Gymry Cymraeg sydd yn mynychu'r clwb ac yn benodol cyn lleied o Gymdeithasau Cymraeg yr ardal sydd yn cynnal nosweithiau cymdeithasol yna. Mae cymdeithasau di-Gymraeg yn heidio i logi 'stafell yn y clwb a mae peryg mai Saesneg fydd yr iaith a glywir amla' yng Nghlwb y Bont. Mae'n fwriad wrth gwrs i groesawu'r di-Gymraeg i'r clwb a'u dylanwadu gobeithio i ddysgu'r iaith neu danfon eu plant i ysgol Gymraeg neu hyd yn oed dim ond i werthfawrogi bod y ddwy iaith yn gallu byw y naill wrth ochr y llall ond mae'n rhaid cael carfan gref o Gymry Cymraeg i wireddu hynny.

Mae rhestr o ddigwyddiadau yn y clwb yw gael yn fisol yng ngholofn 'Digwyddiadur' y 'Tafod'. Os gwelwch yn dda cefnogwch un neu mwy o'r nosweithiau yma neu galwch i mewn am lymaid a sgwrs.

DYMA RAI O ATYNIADAU'R MIS.

CWIS Y CLWB - Deg rownd o ddeg cwestiwn mewn cwis gwybodaeth cyffredinol a timau o dri yn cystadlu yn erbyn eu gilydd yw'r cwis. Codi'r 50c y pen i gystadlu a'r arian i gyd yn cael ei rannu rhwng y tri tîm buddugol. Beth am ddod â tîm draw?

NOSON FAWR mis Hydref yn y Clwb yw'r noson yng nghwmni Dafydd Iwan a Huw Ceredig. Tocynnau £2.00 i aelodau a £2.50 i eraill i'w cael yn y clwb.

YN EISIAU (yn rhad ac am ddim os yn bosib) carped ail-law 20' x 21'. Byddwn yn falch i drefnu trafnidiaeth i'w nôl.

CYSTADLEUAETH FAWR! Rydym eisiau enwau i'r stafelloedd yn y clwb. Cawsom syrffed o alw nhw'n 'y lolfa' a'r 'stafell gefn'. Gwobr hael i'r enillydd. Enwau i'r clwb erbyn diwedd mis Hydref os gwelwch yn dda.

**AGORWYD CLWB-Y-BONT YN 1983 I HYBU CYMREICTOD ARDAL PONTYPRIDD.**

Pa fath o adloniant hoffech chi weld yn y clwb? Rhowch ffôn i'r clwb, Pontypridd 491424, hefo'ch syniadau. Yr un yw'r rhif i logi stafell yn y clwb. Beth am barti Nadolig eich cymdeithas chi yn y Clwb.

** Mae Les Rachub yn gofyn yn daer os ellir peidio gofyn am ei lofnod gan bod ei fraich golchi ffenestri yn diodde yn dilyn y llu o geisiadau ar ôl yr erthygl yn y 'Tafod' mis Medi.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CASNEWYDD
30 Gorffenaf - 6 Awst 1988

CYSTADLEUAETH I DDARLLENWYR PAPURAU BRO CYMRU

GWOBR: Un tocyn i unrhyw un o weithgareddau swyddogol Eisteddfod Casnewydd

1. Beth yw'r enw ar Bwyllgor Ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd?

2. Ym mha le mae Maes Eisteddfod Casnewydd?

3. Ym mha flwyddyn fu'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd diwethaf?

4. Pwy gyflwynodd y Corn Hirlas presennol i'r Eisteddfod?

5. Beth yw enw Gorseddol Archdderwydd newydd Cymru?

Atebion erbyn Dydd Llun, 9 Tachwedd 1987 i:
Cwis Papurau Bro,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Rhowch eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn.

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CASNEWYDD

Mae Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd wedi ei gyhoeddi ers mis Mehefin ac nawr yw'r amser i ddechrau paratoi am y dyddiad cau ym mis Ebrill 1988.

Ymysg yr Adran Lenyddiaeth mae cystadlaethau newydd i gyfranwyr i bapurau bro - Casgliad o gerddi a phenillion - Ysgrif Olygyddol - Dyddiadur person diwaith - Beirniadaeth ar raglenni plant S4C - Hanes un teulu, neu unigolyn, a ymfudodd o Gymru i Awstralia.

Cynigir dros £13,000 mewn gwobrau yn Adran Celf a Chrefft yr Eisteddfod. Rhennir yr arian rhwng 34 o gystadlaethau sydd yn amrywio o Bensaerniaeth a Chelfyddyd Gain i Ffotograffiaeth a Chrefftau.

Ymysg y cystadlaethau Crefftau ceir digon at ddant y myafrif, gan gynnwys: Gwaith Coed, Dylunio ac Adeiladu Model, Crochenwaith, Gorchudd Mur, Caligraffi, Ffasiwn, Gwaith Gwau, Gwehyddu a Chystadlaethau ar gyfer yr anabl.

Ni ddylid anghofio yr Adran Ysgolion ac Ieuenctid, a cheir cyfle fan yma i blant dan 12 oed gystadlu yn yr Eisteddfod.

Cewch yr holl fanylion yn y Rhestr Testunau neu:

Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf
Rhodfa'r Brenin
Casnewydd NP9 1EX.
0635 54917

## CARDIAU'R NANT

Am y tro cyntaf erioed yn hanes Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, argraffwyd cardiau Nadolig a Chalendrau Cymraeg. Ar y cerdyn mae darlun lliw llawn o bentref Nant Gwrtheyrn o dan haean ysgafn o eira. Tu mewn i'r cerdyn ceir y geiriau "Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda". Pris y cardiau yw 6 am £1 er budd y Ganolfan Iaith.


Mae'r Calendr Cymraeg yn cynnwys chwech o luniau du a gwyn yn dangos bywyd y Nant dros ganrif yn ôl ac hefyd yn fwy diweddar. Mae'r Calendrau yn gwerthu am £2 yr un.

Gellir archebu'r Cardiau Nadolig a'r Calendrau trwy anfon at:

Canolfan Iaith Genedlaethol
Nant Gwrtheyrn,
Llithfaen,
Pwllheli,
Gwynedd. LL53 6PA.
Ffôn: 075 885334



# BUDDSODDI A DATBLYGU



Wedi dioddef oes o ddiniweidrwydd breuddwydiol y chwedegau a'r saithdegau, braf yw nodi fod arwyddion pendant fod hyd yn oed y Cymry, a Chymry Cymraeg gan hynny, yn dechrau mentro i fyd buddsoddi, prynu a gwerthu eiddo gan feithrin dawn weledigaeth i ddatblygu tir ac adeiladau. Mae'n wir wrth gwrs fod y cronfeydd pensiwn a chwmniau-mega yn dal ar flaen y gâd lle bo symiau mawr o arian yn y cwestiwn. Serch hynny mae lle i'r buddosddwr 'bychan' ym myd eiddo ac nid oes rhaid cyfyngu y mentro i gyfranddaliadau ychwaith. Cyfyngir yr ychydig sylwadau isod, sydd megis braslun o bwnc dyrys, i fyd buddsoddi a datblygu lle gallasai fod yn berthnasol oddi fewn dalgylch y **Tafod.**

Wel beth ydi datblygu meddech chi? Mae sawl diffiniad technegol i'w gael wrth gwrs ond yn syml mae a wnelo â gweledigaeth dybiwn i yn fwy na dim arall. Y ddawn o ragweld defnydd newydd, neu fwy effeithlon o dir neu adeilad lle bo'r incwm a geir ar ôl y datblygiad yn uwch na'r hyn a geir yn bresennol. Er enghraifft dymchwel nifer o hen siopau Fictoraidd tref Pontypridd ar renti isel ac yn eu lle adeiladu arcêd o siopau newydd yn wynebu'r Tâf a Pharc Ynysyngharad. Bwytai a Bariau gwin ar uwch bolion dros yr afon - piazza marmor - defnydd helaeth o wydr, llechen a phren - a rhenti wedi dyblu oherwydd fod yr incwm ar gynnydd.

## Cartŵn *GER*




Beth am Llantrisant (yr hen bentref)? Wel mynd ati i greu 'Chelsea' Morgannwg Ganol yno siwr iawn. Datblygiadau 'bythynnod mews' yma ac acw, siopau boutique o safon uchel, bistros, delicatessen ac yn y blaen. Gwell amgylchfyd, gwell economi a mwy o bres pan werthwch eich tŷ teras i 'Country Casuals'.

Beth am yr holl hen gapeli 'ma sy'n anharddu'r amgylchfyd? Ma nhw'n rhatach na feddyliech chi. Mi werthais rhydd ddaliad capel yng Ngwm Cynon y llynedd am £310. Be wnewch chi efo nhw? Wel gwnewch gais cynllunio am glwb nos chwaethus siwr iawn a phocedu'r elw (wele Charbanniers ym Merthyr). Neu gwell fyth beth am hen Glwb Llafur.

Beth yw'r pren mesur cyn chwarae'r gêm datblygu 'ma? Elw ar eich buddsoddiad wrth gwrs. Ond cofiwch hyd yn oed os nad yw'r elw yn ddigonol neu'n bodoli gellwch wneud cais am gymhorthdal datblygu trefol (U.D.G.).

Sut felly mae'r lleygwr, Wmffra Jones, ar ben bys Tâf Elai sy'n berchen ar un siop, rhes o dai neu ddarn o dir am fynd o'i chwmpas hi? Yn gyntaf y syniad. Yn eilpeth cyplysu'r syniad/weledigaeth a'i eiddo. Yn drydydd gwerthu'r syniad ynglŷn a'i eiddo/caniatâd cynllunio i ddatblygydd. Yn olaf dewis lliw eich Porsche 424 cyntaf.

Amhosib meddech chi. Tra eich bod chi yn wfftio mae cannoedd o Gymry yn darganfod a meithrin y grefft. Ac oes, i'r rhai sydd ei angen, mae cyfiawnhad moesol a chymdeithasol hefyd - drwy wneud elw personol rydych yn creu swyddi sy'n esgor ar gynnydd yn 'lluosogwr' yr economi leol.

Gan ddechrau rwan edrychwch o'ch cwmpas. Os yn y capel Dydd Sul cyfrwch y gynulleidfa ac archwiliwch y clustiau. Ond dyna ddigon am ddatblygu.

Beth am y buddsoddi 'ma? Ers chwyldro '79 mae mwy a mwy ohonom wedi ein rhyddhau o hualau 'Jerusalem nouveau' gyda dros 60% ohonom bellach yn berchen tŷ. Ond beth am fynd cam ymhellach.

Beth am brynu rhydd-ddaliad y tai teras 'na yn Nhrallwng. Beth? Rhent tir o £5 y flwyddyn. Ffiars o berig. Ond 'rhoswch. Mae Mr Jones y tenant sydd eisoes yn 67 oed ac yn dioddef o beswch yn marw fory heb blant na gwraig. Parti yng Nghlwb y Bont yna gwerthu'r tŷ am ugain mil efo Cooke and Arkwright a bwcio gwyliau yn Fflorida.

A beth am y ffatri wag 'na yn Nhrefforest? £25,000 - teith neb mewn yno eto siawns. Gorchudd metal broffeil blastig ar waliau a thô ac wele Dragon Rubbers Cyf. yn cytuno talu £5k y flwyddyn ar brydles o ugain mlynedd. Incwm anrhydeddus, tŵf cyfalaf a dim ond eisiau poeni am y bil dreth.

O ia. Sori. Yr hen gydwybod chwedegol colegol na. Wel mae Dragon Rubbers Cyf yn cyflogi pymtheg dyn yn tydyn nhw. Peidiwch poeni - wneith y dyn treth ddim eich riportio i sanhedrin Kinnock a Thomos.

Owain Llywelyn